

PWYLLGOR YMGYNGHOROL RHIANTA CORFFORAETHOL

DYDD MAWRTH, 18 IONAWR 2022

Yn
bressenol: Cynghorydd Merry(Cadeirydd)

Cynghorwyr Hinchey, Jones-Pritchard, Jenkins, Lent, Naughton
a/ac Parkhill

189 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Lister a Ford, a gan Rose Whittle, Ymgynghorydd Pwyllgor.

190 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiannau.

191 : COFNODION

Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod ar 20 Gorffennaf 2021 fel y cynigiwyd gan y Cynghorydd Lent ac eiliwyd gan y Cynghorydd Naughton.

192 : DIWEDDARIAD Y GWASANAETH CYFIAWNDER IEUENCTID

Gwahoddodd y Cadeirydd Angharad Thomas o'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid i gyflwyno'r adroddiad, sy'n ceisio hysbysu'r Pwyllgor o strwythur presennol y GCI ynghyd â data ar ganlyniadau a gwybodaeth am Blant sy'n Derbyn Gofal sy'n dod i sylw'r gwasanaeth.

Gofynnwyd i'r Aelodau wneud sylwadau neu ofyn cwestiynau am y wybodaeth a roddwyd. Mae'r trafodaethau hynny wedi'u crynhoi isod:

- Holodd yr aelodau am natur y gwaith a wnaed gyda phlant 8-9 oed i helpu i'w hatal rhag mynd ar lwybr i mewn i'r GCI. Dywedodd swyddogion, er bod rhai ardaloedd yn gwneud gwaith atal ymhlith plant 8-9 oed roedd ASEF wedi dweud nad oedd hyn yn briodol ar gyfer GCI. Efallai y bydd lle ar gyfer gwaith wedi'i dargedu o fewn ysgolion cynradd y gallai GCI gyfrannu ato.
- Holodd yr Aelodau a allai dadansoddiad o'r data ddarparu rhagor o wybodaeth am y nifer fwy o fechgyn na merched sy'n mynd i mewn i'r GCI. Dywedodd swyddogion y bydden nhw'n ceisio darparu'r wybodaeth.
- Rhoddwyd gwybod i'r aelodau fod addysg yn un o brif bartneriaid GCI. Trafodwyd pwysigrwydd gweithio gyda phlant cyn ac ar ôl iddynt fynd i mewn i GCI, er mwyn atal mynediad ac ailymuno â'r gwasanaeth.
- Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod enw'r gwasanaeth wedi'i newid ynghyd â'i gymheiriaid mewn ardaloedd eraill yn yr ALI i gydnabod newid ffocws i fwrdd o droseddwr yn unig i gwmpasu dioddefwyr hefyd, ac mewn ymateb i geisiadau gan bobl ifanc.

- Trafododd yr aelodau enghreifftiau o ddad-droseddu o fewn y lleoliad gofal. Dywedodd swyddogion y gallai astudiaeth achos gael ei darparu os dymunir.
- Gofynnodd yr aelodau am eglurhad ynghylch a oedd y gweithdai camddefnyddio sylweddau wedi dechrau a sut y cawsant eu targedu. Dywedodd swyddogion y byddai'r gweithdai yn dechrau unwaith y bydd aelod ychwanegol o staff wedi cael ei recriwtio. Mae'r gweithdai wedi'u targedu yn unol ag anghenion y gwahanol sefydliadau preswyl. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod gwaith y gweithwyr camddefnyddio sylweddau yn ymwneud â darparu gwybodaeth a chymorth i blant wrth leihau ymddygiadau niweidiol a gwneud dewisiadau cadarnhaol.

PENDERFYNWYD:

Nodi'r adroddiad.

193 : CYFRANOGIAD - BRIGHT SPARKS

Gwahoddodd y Cadeirydd Samantha Anderson (Swyddog Cyfranogi, NYAS Cymru) i gyflwyno'r adroddiad, a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y Clwb Bright Sparks a'r gweithgareddau y mae Bright Sparks wedi'u cynnal mewn perthynas â'r pedwerydd o'r 5 Blaenoriaeth a amlinellir yn y Strategaeth Rhianta Corfforaethol – cyflawniad addysgol, Cyflogaeth a Hyfforddiant, yn ogystal â gweithgareddau eraill y mae'r grŵp wedi cymryd rhan ynddynt.

Adroddodd Ms Anderson a Leigh Vella, Swyddog Rhianta Corfforaethol, ar y cyfarfod ar y cyd rhwng cyfranogwyr Bright Sparks ac aelodau'r Pwyllgor ar 29 Hydref 2021, a oedd yn cynnwys trafodaeth ar y Strategaeth Rhianta Corfforaethol.

Gofynnwyd i'r Aelodau wneud sylwadau neu ofyn cwestiynau am y wybodaeth a roddwyd. Mae'r trafodaethau hynny wedi'u crynhoi isod:

- Holodd yr Aelodau am adolygiad o'r costau i blant mewn hosteli ac ymdrechion i'w lleihau. Dywedodd swyddogion y byddent yn ceisio gwybodaeth am y mater.
- Mynegodd yr Aelodau bwysigrwydd cefnogaeth cymheiriaid i ddyheadau Plant sy'n Derbyn Gofal, gan Blant Eraill sy'n Derbyn Gofal a chan gyfoedion nad ydynt yn PDG, yn ogystal â chan oedolion proffesiynol. Dywedodd swyddogion fod y bobl ifanc â phrofiad o ofal y buont yn gweithio gyda nhw yn falch o'u profiad fel PDG ac mae gweithio gydag eraill sy'n perthyn i'r categori hwnnw yn bwysig iddyn nhw. Maent yn disgwyl rhywfaint o wahaniaethu a rhagfarn gan blant eraill, ond mae'n arbennig o niweidiol pan ddaw gan oedolion proffesiynol.
- Holodd yr aelodau am lwyddiant Nod 5 Cartrefi Sefydlog Cadw pobl allan o ddigartrefedd a hosteli. Dywedodd swyddogion nad oedd ganddynt unrhyw wybodaeth am hynny.
- Trafododd yr Aelodau faint o amser y gallai'r Cyngor ddarparu rhwyd ddiogelwch i bobl ifanc â phrofiad o ofal wrth iddynt symud ymlaen i fywyd fel oedolion.

PENDERFYNWYD:

Nodi'r adroddiad.

194 : Y GWASANAETH CYNGOR I MEWN I WAITH

Gwahoddodd y Cadeirydd Kate Elias (Cydllynydd Cynorthwyol i Mewn i Waith i leuenctid) a Cherie Macquis (Mentor Cyflogaeth leuenctid Dechrau Disglair) i gyflwyno'r adroddiad, a oedd yn darparu gwybodaeth mewn perthynas â'r Prosiect Dyfodol Disglair a'r Cynllun Hyfforddeiaeth Dechrau Disglair.

Gofynnwyd i'r Aelodau wneud sylwadau neu ofyn cwestiynau am y wybodaeth a roddwyd. Mae'r trafodaethau hynny wedi'u crynhoi isod:

- Gofynnodd yr Aelodau am ddadansoddiad o'r cymorth y gall y Cyngor ei ddarparu mewn perthynas â chostau tai ar gyfer y cyfarfod nesaf. Dywedodd swyddogion fod pobl ifanc wedi cael eu hannog i wneud cais am Daliad Tai yn ôl Disgresiwn i gwmpasu'r cyfnod cychwynnol pan fyddant yn dechrau gweithio. Fodd bynnag, nid oes sicrwydd am gais llwyddiannus a byddai'n well gan lawer o bobl ifanc beidio â gweithio na mentro mynd i ddyled.
- Holodd yr aelodau am leoliadau gyda phartneriaid preifat. Dywedodd swyddogion bod saib wedi bod ar leoliadau allanol oherwydd pryderon ynghylch Covid. Roedd y Tîm Cyswllt Cyflogwyr wedi bod yn gweithio ar sefydlu lleoliadau ar gyfer pryd y caiff yr oedi ei godi.
- Mynegodd yr aelodau siom mai dim ond lleoliadau mewnol oedd wedi bod yn bosibl. Trafodwyd pwysigrwydd ehangu cyfleoedd lleoliadau pan fo cyfyngiadau Covid yn caniatáu.
- Trafododd yr Aelodau fanteision cyfarfodydd wyneb yn wyneb â phobl ifanc ar leoliadau a chanmol gwaith swyddogion wrth gefnogi pobl ifanc.
- Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad a fyddai cyllid ar gael i barhau â gweithrediadau'r flwyddyn nesaf. Dywedodd swyddogion fod disgwyl am gadarnhad o gyllid parhaus o hyd. Roedd cyllid ar gael ar gyfer 4 mentor tan fis Mehefin 2023. Rhagwelir y bydd cyllid ar gyfer mentor ychwanegol ond heb ei gadarnhau.

PENDERFYNWYD:

Nodi'r adroddiad.

195 : CEFNOGI POBL SY'N GADAEI GOFAL

Gwahoddodd y Cadeirydd Sharlaine Bird (Rheolwr Tîm, Gwasanaeth Cynghorwyr Personol) a Gareth Gronow (Cydllynydd Cyfranogiad a Lles) i gyflwyno'r adroddiad, a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith sy'n cael ei wneud gan y gwasanaeth i gefnogi pobl ifanc sy'n gadael gofal, gan gynnwys darpariaethau sydd wedi'u rhoi ar waith i gefnogi pobl ifanc sy'n gadael gofal yn ystod y 12 mis diwethaf, yn ogystal â chynlluniau ar gyfer y gwasanaeth yn y dyfodol.

Gofynnwyd i'r Aelodau wneud sylwadau neu ofyn cwestiynau am y wybodaeth a roddwyd. Mae'r trafodaethau hynny wedi'u crynhoi isod:

- Holodd yr Aelodau a oedd Swyddogion yn gweithio gyda chyrrff eraill fel grwpiau Sgowtiaid sy'n cynnig amrywiaeth o weithgareddau i bobl ifanc. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau nad oedd cydweithio wedi bod yn gweithio gyda grwpiau Sgowtiaid hyd yn hyn gan nad oedd pobl ifanc mewn gofal neu adael gofal wedi mynegi unrhyw ddi-ddordeb mewn ymuno â nhw.
- Mynegwyd y farn mai'r gweithgareddau yr oedd pobl ifanc yn dymuno eu gwneud oedd yn bwysig. Mae sgiliau bywyd fel coginio a DIY ac ymwybyddiaeth ariannol yn bwysig er mwyn galluogi pobl ifanc i fyw'n annibynnol. Dywedodd swyddogion fod pobl ifanc wedi dysgu sgiliau bywyd yn ystod eu hyfforddiant gyda Wates Construction. Bwriad sesiynau a roddir gan y tîm yw rhoi mwy o annibyniaeth a hyder i bobl ifanc a fydd yn eu galluogi i ymuno â grwpiau allanol fel Sgowtiaid.
- Mae'r swydd tîm ychwanegol wedi galluogi'r tîm i ddatblygu carfan o bobl ifanc sy'n gallu rhoi adborth ar eu barn am y gwasanaeth a'u gweithgareddau, yn ogystal â chreu cyfleoedd newydd i'r gwasanaeth.

PENDERFYNWYD:

Nodi'r adroddiad.

196 : PLANT SY'N DERBYN GOFAL MEWN ADDYSG - BRÏFF ADOLYGU BLYNYDDOL

Gwahoddodd y Cadeirydd Gill James, (Arweinydd Cyflawni, Grwpiau Allweddol) a Libby Jones (Tîm Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal) i gyflwyno'r briff, a oedd yn rhoi trosolwg o ganlyniadau olrhain a monitro perfformiad Plant sy'n Derbyn Gofal yn ogystal â chanolbwyntio ar rannu cryfderau ymarfer cyfredol o ran cefnogi Plant sy'n Derbyn Gofal.

Gofynnwyd i'r Aelodau wneud sylwadau neu ofyn cwestiynau am y wybodaeth a roddwyd. Mae'r trafodaethau hynny wedi'u crynhoi isod:

- Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ar y pellteroedd a deithiwyd gan Blant sy'n Derbyn Gofal a addysgir mewn lleoliadau y tu allan i'r sir. Dywedodd swyddogion bod hyd yn oed lle roedd y gosodiadau'n ychydig dros y ffin eu bod yn dal i gyflwyno anawsterau.
- Cadarnhaodd swyddogion fod y Dangoswrdd PCRhC yn rhan o'r adroddiad ac eglurodd acronymau a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad.
- Trafododd yr Aelodau a fyddai'n briodol ymgorffori targedau ar gyfer cyfraddau gwahardd, pontio i TGAU, a symud ymlaen i gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant. Dywedodd swyddogion mai'r dyhead oedd i ddim plant gael eu gwahardd a bod pob plentyn yn symud ymlaen i gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant. Mae'n bwysig ystyried beth mae llwyddiant yn ei olygu i unigolyn.

Ni fyddai unrhyw dargedau yn wahanol i'r rhai ar gyfer y Gyfarwyddiaeth Addysg gyfan.

PENDERFYNWYD:

I nodi'r briff a ddarparwyd.

197 : PAPUR BRIFFIO DIWEDDARU DEDDF ANGHENION DYSGU
YCHWANEGOL A THRIBIWNLYS ADDYSG (CYMRU) 2018

Gwahoddodd y Cadeirydd Gill James (Arweinydd Cyrhaeddiad (Grwpiau Allweddol) a Libby Jones (Tîm Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal) i gyflwyno'r briff, a oedd yn rhoi trosolwg o oblygiadau'r system ADY ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal. Cafwyd cyflwyniad hefyd.

Gofynnwyd i'r Aelodau wneud sylwadau neu ofyn cwestiynau am y wybodaeth a roddwyd. Mae'r trafodaethau hynny wedi'u crynhoi isod:

- Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ynghylch lle byddai'r cyfrifoldeb am CDU plentyn yn gorwedd. Dywedodd swyddogion y byddai'r ALI yn gyfrifol am yr CDU a byddai'n dibynnu ar gydweithwyr yn y Gwasanaethau Plant ac Addysg i sicrhau dull cydgysylltiedig. Unig ffocws yr athro cynhwysiant yw'r CDUau.
- Croesawodd yr Aelodau gynnwys Plant sy'n Derbyn Gofal wrth ddatblygu eu CDU a thrafod sut y bu profiad Plant sy'n Derbyn Gofal gan yr Awdurdod Lleol a'r rhai nad oeddent yn wahanol.

PENDERFYNWYD:

I nodi'r briff a ddarparwyd.

198 : ADRODDIAD AR BERFFORMIAD

Gwahoddodd y Cadeirydd Deborah Driffield (Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Plant) i gyflwyno'r dangosfwrdd perfformiad.

PENDERFYNWYD:

I nodi'r ffigurau perfformiad a ddarparwyd.

199 : RHAGLEN WAITH 2021 - 2022

Gwahoddodd y Cadeirydd Leigh Vella i gyflwyno'r rhaglen waith a gwahoddodd yr Aelodau i gadarnhau a oedd unrhyw faterion penodol yr hoffent eu trafod yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor ym mis Mawrth.

Awgrymodd yr Aelodau y canlynol ar gyfer y cyfarfod nesaf:

- Gwybodaeth mewn perthynas â hyfforddiant i'r Pwyllgor ac Aelodau newydd wrth symud ymlaen, gan gofio'r etholiad lleol a gynhelir ym mis Mai;
- Gwybodaeth mewn perthynas â chostau byw plant sy'n derbyn gofal – gan gyfeirio'n benodol at gostau tai; ac

- Y math o wasanaethau y gallai'r rhiant corfforaethol helpu i'w darparu unwaith y bydd person ifanc yn cyrraedd 25 oed.

PENDERFYNWYD:

Nodi'r adroddiad a'r sylwadau mewn perthynas ag eitemau pellach.

200 : EITEMAU BRYD (OS OES RHAI)

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau bryd.

201 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Y dyddiad nesaf a drefnwyd gan y Pwyllgor yw dydd Mawrth 15 Mawrth 2022 am 2.00 pm drwy MS Teams.

Daeth y cyfarfod i ben am 4.30 pm